**Atodiad 1 i**

**STD02-08-99**

## DRAFFT O FANYLEB PERSON AR GYFER SWYDD YMGYNGHORYDD Y CYNULLIAD AR YMDDYGIAD AELODAU

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | **YMGYNGHORYDD Y CYNULLIAD AR YMDDYGIAD AELODAU** |
| **Diben a Rôl:** | Rhoi cyngor a chymorth i'r Cynulliad a'r Llywydd ar faterion yn ymwneud ag ymddygiad aelodau ac ar wahoddiad Pwyllgor y Cynulliad ar Safonau Ymddygiad i ymchwilio i faterion ffeithiol sy'n codi o ganlyniad i unrhyw gyn a gyfeirir at y Pwyllgor. |
| **Prif ddyletswyddau'r swydd** | *Mewn perthynas â chwynion:* |
| | Cynnal ymchwiliad cychwynnol i gynion, gan gynnwys nodi'r rhai lle mae angen cysylltu â'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron; |
| | Rhoi cyngor annibynnol ac ymarferol ar ddelio â chwynion unigol a chyflwyno adroddiad wedi'i resymu gan argymell a ddylid diystyru'r mater neu ymchwilio ymhellach iddo; |
| | Cynnal ymchwiliad manwl i'r mater ar ran y Pwyllgor, yn ôl yr angen; |

Casglu tystiolaeth ddogfennol, ysgrifenedig a llafar: delio'n uniongyrchol ag Aelodau, y sawl a wnaeth y

gyn ac eraill wrth baratoi tystiolaeth o'r fath;

Paratoi adroddiad ffeithiol pellach ar gyfer y Pwyllgor a chyflwyno'r dystiolaeth honno;

Mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor i egluro pwyntiau ffeithiol.

*Dyletswyddau eraill:*

cynghori'r Llywydd ar faterion eraill yn ymwneud â safonau Aelodau;

cynorthwyo'r Pwyllgor wrth baratoi ei adroddiad blynyddol i'r Cynulliad;

**Telerau ac Amodau**

Penodiad am 3 blynedd fydd hwn yn y lle cyntaf, y gellir ei derfynu trwy benderfyniad y Cynulliad. Cyflog i'w dalu ar sail *per diem* o £300 y dydd ynghyd â swm 'cadw' blynyddol o £3,000. Telir costau teithio a threuliau yn unol â chyfraddau staff y Cynulliad Cenedlaethol.

Bydd disgwyl i'r sawl a benodir weithio'r oriau angenrheidiol i gyflawni dyletswyddau'r swydd yn effeithlon. Rhagwelir na fydd hynny'n fwy na 2-3 diwrnod y mis, ond gallai hynny amrywio yn dibynnu ar unrhyw gyngor y gofynnir amdano gan y Llywydd neu'r Pwyllgor.

Ar ôl y flwyddyn gyntaf, bydd y swydd yn cael ei hadolygu er mwyn penderfynu a yw lefel y dyletswyddau a'r ymrwymiad amser arfaethedig yn dal i fod yn briodol. Bydd yr Ymgynghorydd yn gallu cynnig newidiadau cyn hynny yn sgil ei asesiad o ofynion y swydd.

**Staff a Swyddfa**

Bydd yr ymgynghorydd wedi'i gysylltu â rhwydwaith TG y Cynulliad, ac felly bydd yn gallu gweithio o gartref neu o un o Swyddfeydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd staff Swyddfa'r Llywydd yn cefnogi'r ymgynghorydd.

**Sail y Penodiad**

Gwneir y penodiad gan y Cynulliad yn unol â threfniadau a wneir gan y Llywydd. Bydd y trefniadau hynny yn adlewyrchu egwyddorion Cod Ymarfer y Cynulliad ar Benodiadau Cyhoeddus.

Ni fydd yr ymgynghorydd yn aelod o staff y Cynulliad yn unol â diffiniad adran 34 Deddf Llywodraeth Cymru 1998.